
**Cyfeillion Ynys Tysilio**



**Friends of Church Island**


## Friends of Church Island: 2019 Report from the Chair

I'd like to start by thanking all of you who have donated time, money and/or special talents to Church Island this year. Our financial situation, as reported by our Treasurer remains healthy. At the end of 2018 our funds stood at £17,610.07. This has allowed us to undertake some important projects.

£350 was spent on tree work last autumn (including taking down a Leylandii, pruning hedges and shrubs and replanting some hedging). We're grateful to Nigel Brown for his advice and to Snowdonia Tree Services for carrying out the work. The grass was cut just twice last year: the rabbits help to control it, for one reason, and, secondly, we only cut in between the flowering seasons. The Church paid all for this work last year, although the Friends offered. Work has also continued on the gravestones and monuments that have been identified as unsafe. Following talks with the Church in Wales authorities it has been confirmed that the Church is not entitled to make any repairs to gravestones and monuments apart from to lay them flat for health and safety reasons. Grave monuments are the property of the people who erected them and their descendants, not of the Church. The Friends, however, are committed to conserving the graveyard, and your officers have therefore undertaken to pay for repairs that will keep unsafe stones upright where possible. This is involving us in expenditure of approximately £4,000. We will pass on to the Church the cost of any stones or crosses that have to be laid flat. The stonemason has submitted one invoice so far for £1,940, which was paid in January 2019. The third piece of work that will be carried out in 2019 is repairs to paths and walls that have collapsed. Lenson Stonemasons have been contracted to undertake repairs to two places. Approval for expenditure of £8,937 for this work was given at the Friends' meeting in February 2019. As you can see therefore, after years of boosting our membership and fundraising we are now in a position to spend money on our main purpose, which is to maintain the island and its amenities.

The work listed above has involved contractors who need paying, but The Friends are also lucky to have volunteers to do a lot of work. In the past year, we have organised Saturday morning gardening sessions: these help to keep the paths clear and bramble and ivy in check on the buildings and monuments. Nigel Brown has continued to conduct his seasonal walks around the island. In early 2019 we also had a day's work from the "Silver Slashers", the Anglesey Coastal Path Volunteers Group. They came to the island a few days after the death of John Stubbs, one of the group's founders, and our contact person for many years. The group decided to dedicate a day's volunteering on Church Island to his memory, and we were honoured and grateful to welcome them. For Remembrance Sunday on November 11th, 2018 (the centenary of the end of World War One) all the war graves on the island were decorated with knitted poppies and a short text about the person commemorated. Our thanks go to Bridget Geoghan for the texts and Menai Bridge WI along with other volunteers from the Church who provided the poppies. There have been two festivals on the island in the last 12 months. In July 2018 we enjoyed another successful Gŵyl Tysilio / Tysilio Festival, directed for the 5th year by Lis Perkins. Plans are in place for this year, and a wine-tasting evening has raised money for artistes' fees. Revd. Neil Fairlamb offered both his time and the wine for the evening. Also for a 5th time, Femke van Gent organised Mother Island Whispers at the end of March 2019. Revd. Tania ap Siôn has continued her monthly Pilgrim Services for Healing and Wholeness throughout the year, and she also conducted two services for the blessing of dogs. In February 2019, a local archaeologist, Aimee Pritchard Robinson gave us a fascinating talk about graffiti with particular reference to Church Island. The Friends were again invited to set up a stall at the Civic Society's Garden Fête at Plas Cadnant. in September. So, to all those who have supported us this past year with their time and talents, I'd like to extend heartfelt thanks on behalf of the Friends.

**Cyfeillion Ynys Tysilio**



**Friends of Church Island**

## Cyfeillion Ynys Tysilio: Adroddiad 2019 o’r Gadair

Hoffwn ddechrau gyda diolch i chwi i gyd sydd wedi rhoi amser, arian neu dalentau arbennig i Ynys Tysilio eleni. Mae’n sefyllfa ariannol, fel adroddwyd gan ein Trysorydd yn dal yn iach. Ar ddiwedd 2018 safai ein cronfeydd yn £17,610.07. Mae hyn wedi’n galluogi i ni ymgymeryd a rhai prosiectau pwysig.

Gwariwyd £350 ar waith coedwigaeth Hydref diwethaf (gan gynnwys tynnu i lawr Leylandii, torri gwrychoedd a mieri ail blannu rhai gwrychoedd). Yr ydym yn ddiolchgar i Nigel Brown am ei gyngor ac i gwmni Snowdonia Tree Services am wneud y gwaith. Torrwyd y glaswellt ddwy waith y llynedd.: cynorthwyodd y cwningod i gadw rheolaeth arno, fel un rheswm ac yn ail, torrwyd rhwng y tymhorau blodeuo.Talodd yr Eglwys am yr holl waith yma y llynnedd, er fod y Cyfeillion wedi cynnig. Mae gwaith wedi parhau ar y cerrig beddi a’r cof feini a ddarganfuwyd i fod yn ansaff. Yn dilyn trafodaethau gyda awdurdodau yr Eglwys yng Nghymru cadarnhawyd nad yw’r Eglwys fod i wneud unrhyw atgyweiriadau i gerrig beddi a chof feini heb-law am eu gosod i lawr ar y tir am resymau iechyd a diogelwch. Eiddo’r bobl yw’r cerrig beddi a godwyd, hwy a’u teuluoedd nid yr Eglwys. Fodd bynnag, mae’r Cyfeillion, yn gyfrifol am gadwraeth y fynwent, ac felly mae’ch swyddogion wedi ymgymeryd i dalu am waith atgyweirio a fydd yn cadw cerrig ansaff yn syth os yn bosibl. Mae’r gost i wneud hyn wedi bod o gwmpas £4,000. Fe wnawn gysylltu a’r Eglwys os cyfyd costau o unrhyw gerrig neu groesau sydd angen eu gosod ar lawr. Mae’r saermaen wedi rhoi un anfoneb i mewn hyd yn hyn am £1,940, a thalwyd ef ym mis ionawr 2019. Fe gaiff y trydydd darn o’r gwaith ei wneud yn 2019 sef atgyweirio llwybrau a waliau sydd wedi dymchwel. Cysylltwyd a chwmni Lenson i ymgymeryd a’r atgyweirio i ddau safle. Cafodd cymeradwyaeth ei roi yng Nghyfarfod y cyfeillion ym mis Chwefror 2019 i wneud y gwaith yma am gost o £8,937. Fel y gwelwch, ar ol blynyddoedd o gryfhau’r aelodaeth a chodi arian yr ydym yn awr mewn safle i wario arian ar ein prif bwrpas, sef cynnal yr ynys a’i hamgylchedd.

Mae’r gwaith a restrwyd uchod wedi cynnwys ymgymerwyr sydd angen eu talu, ond mae’r Cyfeillion wedi bod yn lwcus o gael gwirfoddolwyr sy’n gwneud llawer o’r gwaith. Yn y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi trefnu sesiynau garddio ar fore Sadwrn: mae’r rhain yn cynorthwyo i gadw’r llwybrau’n glir a threfn ar eiddew a mieri ar yr adeiladau a’r cof feini. Parhaodd Nigel Brown gyda‘i deithiau cerdded tymhorol o gwmpas yr ynys. Ar ddechrau 2019 fe gawsom hefyd ddiwrnod o waith gan y “Silver Slashers” y grwp Gwirfoddol Llwybrau Arfordir Mon. Daethont i’r Ynys ychydig ddyddiau ar ol marwolaeth John Stubbs, un o’r rhai a gy-chwynodd y grwp, a’n person cyswllt am nifer o flynyddoedd. Penderfynodd y grwp i roi diwrnod er cof fel gwaith gwirfoddol ar Ynys Tysilio, ac yr oeddem yn freintiedig a diolchgar i’w croesawu. Ar gyfer Sul y Cofio ar Dachwedd 11eg 2018 (canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf) addurnwyd holl feddi’r ynys a oedd yn ymwneud a’r Rhyfel Byd Cyntaf gyda phabi wedi eu gwau a hanes byr o’r person a goffeir. Mae’n diolch yn mynd i Bridget Geoghan am yr hanes a SYM Porthaethwy ynghyd a gwirfoddolwyr eraill o’r eglwys a wauodd y pabis. Cynhaliwyd dwy ŵyl ar yr ynys yn y 12 mis diwethaf. Ym mis Gorffennaf 2018 mwynahwyd Gŵyl Tysilio llwyddiannus arall wedi ei gyfarwyddo gan Lis Perkins am y 5ed flwyddyn. Mae cynlluniau yn eu lle am eleni, a chodwyd arian tuag at ffioedd yr artisiaid mewn noson flasu gwin. Cynigiodd y Parch. Neil Fairlamb ei amser a’r gwin am ddim ar gyfer y noson. Hefyd am y 5ed tro, trefnodd Femke Van Gent Sybrydion y Fam Ynys ddiwedd Mawrth 2019. Parhaodd Parch. Tania ap Siôn gyda’i Gwasanaeth Pererindod am Iachad a Chyfanrwydd yn fisol drwy’r flwydddyn, a hefyd cynhaliodd ddau wasanaeth i fendithio cwn. Ym mis Chwefror 2019, daeth archeolegydd lleol, Aimee Pritchard Robinson atom a rhoi sgwrs wych ynglyn a graffiti yn cyfeirio’n arbennig i Ynys Tysilio. Gwahoddwyd y Cyfeillion unwaith eto i osod stondin yn Ffair Ardd y Gymdeithas Ddinesig ym Mhlas Cadnant, ym mis Medi. Felly, i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda eu hamser a’u talent, fe hoffwn ymestyn fy niolch o’r galon ar ran y Cyfeillion.

Gareth Hughes, Mai 2019